

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Medi 2021

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: POLISI

Teitl: Llwybr Syndrom Twnnel y Carpws

Mae'r Rhaglen Glinigol ar gyfer Orthopedeg wedi datblygu llwybr cenedlaethol ar gyfer Syndrom Twnnel y Carpws.

Dyddiad Dod i Ben / Adolygu: 12 mis

I'w weithredu gan:
Pob bwrdd iechyd
Ymddiriedolaethau'r GIG

Camau i'w cymryd erbyn:
Tachwedd 2021

Anfonir gan: Caroline Mills
Y Rhaglen Glinigol ar gyfer Orthopedeg – Rheolwr Prosiect

Enw(au) Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:
Olivia Shorrocks
Pennaeth Cyflyrau Difrifol
Cyflawni a Pherfformio
Olivia.Shorrocks@llyw.cymru
03000625545

Dogfen(nau) amgaaedig: Siart Ilif Llwybr Syndrom Twnnel y Carpws

Cyflwyniad

Sefydlwyd y Rhaglen Glinigol ar gyfer Orthopedeg i gyflawni newidiadau a fydd yn trawsnewid llwybrau cleifion ar sail yr arferion gorau.

Sefydlwyd y grŵp gorchwyl a gorffen cenedlaethol ar Syndrom Twannel y Carpws sy'n cynnwys cynrychiolydd o faes llawfeddygaeth, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, niwroffisiolegwyr, a rheumatolegwyr o fyrddau iechyd i ddatblygu Llwybr Syndrom Twannel y Carpws cenedlaethol. Bydd y llwybr hwn yn golygu bod un dull o ddarparu gwasanaeth cyson ledled Cymru a bydd o gymorth i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

Cyflwr lle y mae'r nerf canol yn cael ei gywasgu yn y fan lle y mae'n pasio drwy dwnnel byr wrth yr arddwrn, sy'n cynnwys y tendonau sy'n plygu'r bysedd a'r bodiau yn ogystal â'r nerf ei hun, yw Syndrom Twannel y Carpws. Mae symptomau Syndrom Twannel y Carpws yn cynnwys:

- teimlo fel pe bai rhywbeth yn pigo neu deimlad fel pe bai gan rywun binnau bach
- colli teimlad
- o bryd i'w gilydd, boenau yn y dwylo¹.

Gellir teimlo symptomau Syndrom Twannel y Carpws o bryd i'w gilydd yn yr elinau neu ymhellach i fyny'r fraich, ac maent yn ymddangos yn raddol, dros gyfnod o wythnosau.

Beth yw Llwybr Syndrom Twannel y Carpws?

Map gwasanaeth lefel uchel yw'r Llwybr sydd wedi'i gynllunio i ddarparu strwythur i'w ddefnyddio ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth gwasanaethau yn lleol. Mae'n rhoi arweiniad ar:

- Driniaeth geidwadol mewn gofal sylfaenol
- Trothwyon atgyfeirio ar gyfer atgyfeiriadau rheolaidd a brys
- Defnyddio adnoddau diagnostig ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Hybu model llawfeddygol "un stop"
- Llawdriniaethau gan/a oruchwylir gan rai sydd wedi'u hyfforddi i safon berthnasol
- Defnyddio Mesurau Canlyniadau a Gofnodir gan Gleifion (PROMS) a rhyddhau cleifion yn uniongyrchol er mwyn lleihau nifer yr apwyntiadau dilynol diangen

Sut y bydd y Llwybr Syndrom Twannel y Carpws yn cael ei gynnal?

Bydd Bwrdd Orthopedeg Cymru yn adolygu'r canllawiau yng ngoleuni tystiolaeth newydd ac yn cyngori ynghylch unrhyw newidiadau fydd eu hangen, os o gwbl.

Beth sy'n ofynnol i'ch bwrdd iechyd ei wneud?

Disgwylir i fyrddau iechyd lunio cynllun datblygu erbyn 15 Tachwedd 2021 sy'n amlinellu'r trawsnewid i'r Llwybr Syndrom Twannel y Carpws newydd ymhen 6 mis.

Sut y bydd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro?


Bydd Bwrdd Orthopedeg Cymru yn monitro'r gydymffurfiaeth â chynlluniau datblygu drwy gyfarfodydd adolygu â thimau clinigol yn rheolaidd. Bydd canlyniadau yn cael eu hadrodd i Fwrdd y Rhaglen Gofal Wedi'i Gynllunio Genedlaethol.

¹ <https://www.bssh.ac.uk/> - taflen wybodaeth i gleifion

All Wales – Carpal Tunnel Syndrome Pathway (1): Primary Care



Primary Care action
Clinical decision point



Patient presents in Primary Care (GP / Community AHP)

Signs and symptoms of CTS identified, including hand pain, tingling, numbness in median nerve distribution

Patient to complete Boston Carpal Tunnel Questionnaire (BCTQ)

CLINICAL EXAMINATION
Is there any thenar muscle wasting and / or sensory loss?
If YES, refer via fast track regardless of BCTQ score
If NO, review the BCTQ score

Moderate or severe SYMPTOMS (BCTQ score ≥ 23)

Moderate or severe FUNCTIONAL STATUS (BCTQ score ≥ 17)

Age <50 years with mild SYMPTOMS (BCTQ score ≤ 22)

Mild FUNCTIONAL STATUS (BCTQ score ≤ 16)

Fast track triage to Orthopaedics


Refer via CMAT or similar MSK service – triage / investigation process

Conservative management (3 months)
Can include self sourced splints and/or steroid injections but these are not mandatory

At 3 months
Have the reported issues self resolved?

Discharge

All Wales – Carpal Tunnel Syndrome Pathway (2): MSK assessment service



All Wales – Carpal Tunnel Syndrome Pathway (3): Secondary Care

